**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**212 - Rheoliadau Cludo Gwastraff Rhyngwladol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 17 Rhagfyr 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Diben y Rheoliadau Cludo Gwastraff Rhyngwladol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 ("Rheoliadau 2021") yw gwneud y cywiriadau angenrheidiol i'r ddeddfwriaeth a ddargedwir er mwyn medru rhoi mesurau ar waith ar gyfer rheoli symudiadau gwastraff o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon. Mae angen y diwygiadau er mwyn gallu parhau i weithredu cyfraith yr UE a ddargedwir, o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ym maes diogelu'r amgylchedd mewn cysylltiad â symud gwastraff ar draws ffiniau, yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE.

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol:

Is-ddeddfwriaeth Ddomestig

- Rheoliadau Cludo Gwastraff ar draws Ffiniau 2007.

Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd

- Rheoliad (CE) rhif 1013/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor o 14 Mehefin 2006 ar gludo gwastraff ("Rheoliadau Cludo Gwastraff"); a
- Rheoliad y Comisiwn (CE) rhif 1418/2007 o 29 Tachwedd 2007 ynghylch allforio i adfer rhai o'r mathau o wastraff a restrir yn Atodiad III neu IIIA i'r Rheoliadau Gwastraff i wledydd penodol na ddônt o dan benderfyniad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar reoli symudiadau gwastraff ar draws ffiniau

Bydd y newidiadau gweithredol a'r diwygiadau canlyniadol eraill a wneir gan Reoliadau 2021 yn sefydlu mesurau rheoleiddio a rheoli gweinyddol ar symud gwastraff o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon sydd eu hangen i roi Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon ar waith.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 30 Rhagfyr 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.